Prifysgol Abertawe
Swansea University

I'w ddarllen cyn y cwrs

Diogelu'r Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer busnesau proffesiynol

Rheolaeth Amgylcheddol ar Gyfer y Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer y sector Rheolaeth Amgylcheddol

Delir yr hawlfraint ar y defnyddiau cyhoeddedig o brosiect PP4SD Prifysgol Abertawe, yn y fformadau argraffedig a chrynoddisg, gan yr awduron. Rydym yn cefnogi'r defnydd o'r defnyddiau, gan ofyn yn unig am i'r gydnabyddiaeth ganlynol gael ei rhoi bob tro y'u defnyddir:

"Datblygwyd y defnyddiau hyn gan dîm PP4SD ym Mhrifysgol Abertawe, gyda mewnbwn arbenigol gan PP4SD y DU. Cefnogwyd y gwaith o'u datblygu a'u cynhyrchu gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3."

(Delir yr hawlfraint ar lawlyfr gwreiddiol PP4SD, y daw defnydd Prifysgol Abertawe'n rhannol ohono, gan Sefydliad y Gwyddorau Amgylcheddol.)

Cefnogir gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3

Lantra

ARFERION PROFFESIYNOL TUAG AT DDATBLYGU CYNALIADWY
pp4sd
PROFESSIONAL PRACTICE FOR SUSTAINABLE DEVELOPMENT

Rheolaeth Amgylcheddol ar gyfer y Dyfodol

Rhaglen hyfforddiant i'w defnyddio mewn gweithdai i helpu busnesau bach a chanolig eu maint i integreiddio egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn eu harferion busnes.

Defnydd i'w ddarllen cyn y cwrs

Ystyrir datblygiad cynaliadwy yn aml yn fater amgylcheddol, ond mae hi yr un mor wir mai mater o greu cyfoeth a mynd i'r afael â thlodi ac anghyfiawnder ydyw[1].

Pwrpas y gweithdy

Diolch yn fawr am gofrestru i ddysgu mwy am ddatblygiad cynaliadwy ac am y ffyrdd y gallai'ch busnes chi ymateb i'r heriau a gyflwynir ganddo. Mae rhwymedigaeth ar y Cynulliad Cenedlaethol i hybu datblygiad cynaliadwy ac mae'n cynllunio gweithrediadau fydd yn effeithio ar bawb yng Nghymru, gan gynnwys busnesau mawr a mân. Mae gweithio tuag at gynaladwyedd yn creu llu o gyfleoedd busnes ac mae'n gallu gwella meintiau elw, ond efallai hefyd y bydd rhaid i fusnesau newid eu ffyrdd o weithredu os ydynt am ddiwallu gofynion mwy llym ar ran y llywodraeth.

Fe fydd y gweithdy'n eich helpu i integreiddio egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn eich arferion busnes. Fe fyddwch yn gallu achub y blaen ar y galw cynyddol fydd arnoch i weithredu mewn ffyrdd mwy cynaliadwy. Ac yn benodol fe fyddwch yn fwy cymwys i:

- Esbonio'r termau datblygiad cynaliadwy a chynaladwyedd i'ch gweithlu a'ch cwsmeriaid.
- Asesu sut gallai pwysedd gan y llywodraeth, cyflogwyr a chwsmeriaid o blaid datblygiad cynaliadwy effeithio ar eich busnes.
- Cymhwyso syniadaeth 'asiedig' at ddarganfod atebion i broblemau ynghylch busnes a chynaladwyedd.
- Defnyddio technegau sy'n eich helpu i integreiddio egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn eich cynllunio busnes.
- Paratoi cynllun gweithredu datblygiad cynaliadwy.
- Cael mwy o gyngor a chefnogaeth gan sefydliadau yng Nghymru.

Cyd-destun y Gweithdy

Gosododd Deddf Llywodraeth Cymru ddyletswydd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i hybu datblygiad cynaliadwy. Cyhoeddodd y Cynulliad ei Gynllun Datblygiad Cynaliadwy *Dechrau Byw'n Wahanol* fis Tachwedd 2000, a dilynwyd hwn gan Gynllun Gweithredu i roi'r Cynllun mewn grym ym mis Mawrth 2001. Ers hynny mae Adroddiadau Blynyddol yn monitro perfformiad wedi cael eu cyhoeddi.

Mae Dechrau Byw'n Wahanol yn datgan, "bydd popeth a wnawn yn cael ei lywio gan egwyddorion a gweledigaeth y Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Byddwn yn ymgorffori'r rhain yn ein gwaith ac yn mynd ati'n frwd i ddarbwyllo neu i'w gwneud yn ofynnol i eraill wneud yr un fath i sicrhau newid, e.e. awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, busnesau, y sector gwirfoddol a chymunedau. Byddwn yn ceisio eu galluogi i wneud hyn."

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol weledigaeth uchelgeisiol o Gymru gynaliadwy fydd, os ydyw am lwyddo, yn mynnu bod pob un yn cymryd rhan. Mae'r Cynulliad yn datgan y bydd ei gynlluniau'n seiliedig ar:

- hyrwyddo ecónomi amrywiol, gystadleuol, ac iddi werth uchel, gyda sgiliau ac addysg o safon uchel, sy'n ymateb i gyfleoedd datblygu cynaliadwy, sy'n defnyddio cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd ac sy'n dosbarthu'r buddiannau orau y gellir.
- gweithredu ar gyfiawnder cymdeithasol sy'n mynd i'r afael â thlodi, afiechyd, a chanlyniadau anfantais, ac yn rhoi cyfle i bobl a'u cymunedau dorri allan o'r trap tlodi.
- gweithredu yn ein hamgylchedd adeiledig a naturiol sy'n hybu balchder yn y gymuned, sy'n hyrwyddo bioamrywiaeth, sy'n hybu cyflogaeth leol ac sy'n cadw gwastraff, a'r pwysau ar ynni, dŵr a thrafnidiaeth i'r lleiafswm.
- cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol Cymru a helpu i greu gwlad ddwyieithog, tra'n edrych yn hyderus tuag allan a chroesawu dylanwadau diwylliannol newydd.
- creu man sy'n parchu ei blant a lle mae pobl ifanc am fyw, gweithio a mwynhau bywyd o ansawdd uchel, a lle mae cenedlaethau'r dyfodol yn mwynhau gwell rhagolygon mewn bywyd heb iddynt gael cynhysgaeth o broblemau oddi wrthym ni.

[1] http://new.wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/?lang=cy

- Cynorthwyo pobl i fyw bywyd iach ac annibynnol, ni waeth a ydynt yn anabl, faint o incwm sydd ganddynt, neu lle maent yn byw.
- Parchu pob aelod o'r gymdeithas a hybu cyfleoedd cyfartal.
- Hyrwyddo bod yn agored, partneriaeth a chyfranogaeth, fel y gall pobl chwarae rhan mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy ar lefel fyd-eang yn ogystal ag yn lleol, a chymryd i ystyriaeth effaith penderfyniadau a wnaed yng Nghymru ar y byd.

Mae'r Cynulliad wedi datgan yr egwyddorion datblygiad cynaliadwy y bydd yn eu canlyn, ac mae'n ystyried busnesau'n bartneriaid angenrheidiol yn y dasg o wneud Cymru'n gynaliadwy. Bydd yn gweithio gyda busnes:

- drwy ddylanwadu ar eu gweithgareddau drwy'r nwyddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu prynu gan y sector cyhoeddus yng Nghymru.
- drwy ymgynghori ar bolisïau newydd, gan gynnwys gweithio'n agos gyda chyrff sy'n cynrychioli busnesau.
- drwy hyrwyddo dulliau y gall busnesau gyfrannu at amcanion cynaladwyedd, er enghraifft effeithiolrwydd adnoddau (eco-effeithiolrwydd)).
- drwy fod yn gliriach a mwy agored ar faterion sy'n effeithio ar fusnesau.
- drwy ddarparu cymorth i helpu busnesau Cymru i addasu i heriau newydd, e.e. drwy Ymgyrch Amgylchedd Busnes y Cynulliad a'r WDA.
- drwy ddarparu cymorth penodol.
- drwy sicrhau bod amcanion datblygu cynaliadwy yn ganolog i raglenni cymorth a chyngor i fusnesau.

Cymru a'r SMEs[2]

- Diffinir Mentrau Bach a Chanolig Eu Maint, neu SMEs, fel rhai sy'n cyflogi rhwng 0 a 249 o weithwyr. Yn y DU mae yna 3.75 miliwn o fusnesau gweithgar, 85% ohonynt yn Lloegr. Ar draws holl ranbarthau'r DU, mae SMEs yn cyfrif am fwy na 99% o fusnesau.
- Trwy'r DU i gyd, mae 55% o'r gweithlu'n gweithio mewn SMEs, ac mae SMEs yn cyfrif am 51% o drosiant ariannol.
- Yng Nghymru, mae 67.1% o'r gweithlu'n gweithio mewn SMEs ac maent yn cyfrif am 61.4% o'r trosiant. Mae busnesau amaethyddol yn flaenllaw yn eu plith. Mae hyn yn rhywbeth i'w ddisgwyl, gan fod 79% o Gymru'n dir amaethyddol, 14% yn goedwigoedd a dim ond 8% yn dir trefol.
- Mae SMEs sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat yn debyg o gael y bydd rhaid i'w gweithrediadau ddiwallu criteria penodol o ran cynaladwyedd cyn iddynt allu tendro am gytundebau. Fe fydd yr hyfforddiant hwn yn rhoi busnesau mewn gwell sefyllfa i integreiddio egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn eu gweithgareddau ac o ganlyniad ddiwallu'r gofynion hyn.

Moment i feddwl

Nifer o faterion lleol i'w hystyried.

O ddarllen y wybodaeth ganlynol a gymerwyd o wefan y Fyddin Brydeinig[3], fe allech chi feddwl mai gweithgarwch milwrol yw'r ffordd orau o amddiffyn rhostiroedd Pont Senni. Neu efallai nad ydych chi'n cytuno. Ydych chi'n credu bod cadwraeth natur a gweithgarwch milwrol yn cydweddu â'i gilydd ym Mhont Senni? A oes ffactorau eraill i'w hystyried os mai defnydd **cynaliadwy** o'r ardal yw'r nod?

1 A yw Hyfforddiant Milwrol mewn ardal cadwraeth yn weithgarwch cynaliadwy?

Ym Mhont Senni mae defnyddio Mynydd Epynt fel ardal hyfforddiant milwrol wedi galluogi ATEW i gadw tirwedd sylweddol – yn gartref o hyd i gyfoeth o blanhigion ac anifeiliaid sydd wedi diflannu eisoes mewn rhannau eraill o'r wlad. Mae yno adfeilion archeolegol diddorol hefyd. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhoi sylw gofalus felly i reoli'r dreftadaeth arbennig hon i'w chadw ar gyfer y cenedlaethau i ddod.

[2] Ystadegau am SMEs o Wasanaeth Busnesau Bach y DTI

[3] http://www.army.mod.uk/home.aspx

Mae'r llystyfiant yn nodweddiadol o rostiroedd a mawnogydd mynyddig. Mae cymoedd y nentydd hwythau'n gartref i rywogaethau llawr gwlad, ac yma y ceir y rhan fwyaf o'r coetiroedd hynafol. Mae rhyw 28 o filltiroedd (45 o gilomedrau) o berthi gwreiddiol wedi cael eu hail-osod a'u hamgáu.

Mae'r bywyd adarol yn eithaf nodweddiadol o rostiroedd mynyddig. Mae mwy na 100 o rywogaethau wedi cael eu cofnodi. O ran prinder y rhywogaeth fwyaf diddorol yw'r Barcut Coch ysblennydd, a welir yn aml yn hela uwchben y rhostir, hyd at naw ohonynt ar y tro weithiau. Mae'r planhigfeydd a'r perthi newydd yn darparu cynefin ar gyfer llu o adar mân ac yn denu mamoliaid bychain. Gwelir gwiwerod cochion yn aml yng Nghoedwig Crychan.

Mae bron 200 o safleoedd o ddiddordeb archeolegol wedi cael eu hadnabod; o gylch cerrig Oes yr Efydd i weddillion hen ffermydd, rhai ohonynt yn dyddio o'r oesoedd canol. Mae pymtheg o safleoedd wedi cael eu rhestru gan CADW (Gwasanaeth Henebion Cymru). Mae nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSIs) wedi cael eu cydnabod yn ATEW, a nod y broses Cynllunio Rheolaeth Tir Integredig yw sicrhau bod y ddau reidrwydd, sef hyfforddiant milwrol cynaliadwy ac amddiffyn yr amgylchedd, yn cael eu diwallu.

Mae buddiannau cadwraeth yn cael eu diogelu trwy gytundebau rheolaethau â chyrff statudol megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a chyda chymorth ychwanegol gan Grŵp Cadwraeth Pont Senni sy'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn. Mae hyn yn golygu partneriaeth rhwng y Prif Swyddog a'i staff, Ystadau Amddiffyn, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ffermwyr yr ardal a grwpiau sy'n cynrychioli archeolegwyr, botanyddion, daearegwyr, adaregwyr a nifer o fuddiannau eraill.

Mae yna dybiaeth o blaid mynediad cyhoeddus i Ystad Hyfforddiant y Fyddin yng nghyswllt Hawliau Tramwy Cyhoeddus, i'w chadw mewn cydbwysedd â'r gofyniad cenedlaethol hollbwysig am hyfforddiant milwrol diogel a chynaliadwy a chadwraeth. Ym Mhont Senni mae baneri cochion yn cyhwfan yn barhaus ar hyd terfynau'r maes tanio, i ddangos y gall yr ardal gyfan fod yn beryglus. Mae pelenni a mortarau byw yn dyddio o'r Ail Ryfel Byd ymlaen yn cael eu darganfod yn rheolaidd yn ystod ymarferion clirio. Oherwydd y perygl hwn, ni ellir caniatáu mynediad diosgordd i'r cyhoedd i'r ardal hyfforddiant ei hun ac eithrio ar ffyrdd sydd ag arwyddion priodol. Rydym wedi agor canolfan gadwraeth newydd yn ddiweddar yn Nisgwylfa ger Pont Senni, a gosod placiau disgrifiadol wrth 3 mynedbwynt lle y mae heolydd cyhoeddus yn mynd i mewn i'r ardal. Ar yr un safle â'r ganolfan y mae'n bosibl i bobl anabl a chadarn o gorff ymgymryd â theithiau cerdded, â golygfeydd gwych ar draws Mynydd Epynt.

2 Piblinellau ar draws Cymru

Mae adeiladu piblinellau ar draws Cymru i gludo dŵr a thanwydd, yn aml i'w defnyddio y tu allan i Gymru, yn bwnc llosg, fel y dengys y datganiad gwasg canlynol a gyhoeddwyd fis Chwefror 2007. Er ei bod yn anodd dadlau o blaid piblinellau ar sail cadwraeth natur efallai, tybed a ellid cyfiawnhau'r biblinell hon fel esiampl o ddatblygiad cynaliadwy?

8fed Chwefror 2007:Datganiad Gwasg YACW

O wefan y Rhwydwaith Ynni Cenedlaethol

Wyneb cynaliadwy tirweddau Cymru yn y dyfodol?

Mynegodd Ymgyrch Amddiffyn Cymru Wledig (YACW/CPRW) siomedigaeth o'r mwyaf heddiw yn sgil penderfyniad y Llywodraeth i gymeradwyo piblinell o bwys ar draws De Cymru. Mae'n pryderu'n gynyddol hefyd oherwydd y modd an-nemocrataidd y mae prosiectau fel hwn ac eraill sy'n amharu ar dirweddau Cymru'n cael eu cymeradwyo.

Er gwaethaf y consesiynau amgylcheddol yn y caniatâd, mae YACW yn pryderu, lai na thri mis ar ôl i Lywodraeth y DU ymrwymo i ystyried yn llawn bwysigrwydd ein holl dirweddau yn ei gweithdrefniadau penderfynu, fod egwyddorion y Cytundeb Ewropeaidd ar Dirweddau wedi cael eu hanwybyddu'n ddiseremoni.

Yn ei sylwadau ynghylch penderfyniad y Gweinidog Ynni, yr Arglwydd Truscott, dywedodd Peter Ogden, Cyfarwyddwr YACW:

"Mae'r penderfyniad hwn yn esiampl arall o'r tranc trwy fil o doriadau y mae'n ymddangos bod tirweddau cefn gwlad Cymru wedi cael eu condemnio i'w ddioddef. Nid tirweddau ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn unig fydd yn cael eu difetha gan y datblygiad hwn, ond felly hefyd lu o dirweddau eraill ar hyd coridor 196 km y biblinell, wrth iddi fustachu ei ffordd ar draws De Cymru." Mae YACW yn pryderu hefyd nad yw credfanylion cynaladwyedd y prosiect ynni hwn, sef y biblinell ei hun, y ganolfan storio nwy yn Aberdaugleddau a'r holl seilwaith cysylltiedig, wedi cael eu profi erioed, na hyd yn oed fod yn atebol i Asesiad Amgylcheddol Strategol cynhwysfawr na phriodol, o'r math a ddylai gael ei gynnal ar gyfer prosiect fel hwn.

Wrth gwestiynu dull gweithredu'r Llywodraeth, ategodd Peter Ogden:

"Er gwaethaf corws o wrth-ddadleuon ar ein rhan ni, ac ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sefydliadau amgylcheddol lleol a llu o unigolion, gyda phawb yn pwysleisio pa mor amhriodol yw'r cynllun hwn a difrifoldeb y niwed amgylcheddol a achosir ganddo, mae'r Gweinidog wedi gwarafun inni i gyd y cyfle i leisio ein safbwynt trwy gyfrwng proses ddemocrataidd ymchwiliad cyhoeddus. Dyma esiampl arall o wneud penderfyniadau ar sail cyfleustra,wedi'u labelu 'er lles y cyhoedd' dan gochl yr hyn y mae'r Llywodraeth am ei alw'n gynllun meistr ynni cynaliadwy."

Mae gwefan y Rhwydwaith Ynni Cenedlaethol yn rhoi darlun amgen.

Pam mae angen mwy o biblinellau arnom?

"Mae angen i'r Rhwydwaith Ynni Cenedlaethol ehangu ei rwydwaith o biblinellau nwy naturiol pwysedd uchel ar draws De Cymru ac ymlaen i mewn i Swydd Henffordd a Swydd Gaerloyw. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau cyflenwadau nwy dibynadwy a diwastraff i gartrefi a busnesau ar hyd a lled y DU. Mae'r rhaglen yn golygu adeiladu nifer o hydoedd gwahanol o biblinellau, gorsafoedd cywasgu a gweithfeydd cysylltiol dros gyfnod o ryw dair blynedd. Prosiectau peirianyddol mawr yw'r rhain, ac fe aeth pob hyd o biblinell trwy broses lem o ymgynghoriadau ac arfarniad amgylcheddol cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant roi caniatâd i'w hadeiladu.

Hyd yn hyn mae gwledydd Prydain wedi bod yn hunangynhaliol o ran nwy, a hynny i raddau helaeth oherwydd y cyflenwadau toreithiog o'r meysydd nwy, ym Môr y Gogledd yn bennaf. Yn anffodus ni fydd y sefyllfa hon yn parhau. Ar hyn o bryd mae gan y DU fwy na 21 filiwn o gwsmeriaid nwy, ac mae'r nifer yn cynyddu bob dydd. Y gwir yw bod allgynnyrch y meysydd nwy ar y môr yn lleihau tra bod y galw am nwy ar gyfer cartrefi a busnesau'n tyfu mor gyflym nes y bydd y DU, yn ôl y dadansoddiadau, yn mynd yn fwyfwy dibynnol ar nwy wedi'i fewnforio yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae dwy derfynfa newydd i fewnforio Nwy Naturiol Hylifedig (LNG) yn cael eu hadeiladu yn Herbrandston a Waterston, yn ardal Aberdaugleddau. Er bod datblygwyr y terfynfeydd yn annibynnol o'r Rhwydwaith Ynni Cenedlaethol, mae dyletswydd arnom dan amodau ein trwydded weithredu i'w cysylltu â'n System Drosglwyddo Nwy Naturiol, er mwyn sicrhau bod y nwy a allforir ganddynt yn cael ei ddosbarthu'n ddiogel ac yn ddiwastraff i'r mannau lle y mae'r angen mwyaf amdano ar ddefnyddwyr ledled y DU.

Mae angen inni ehangu ein System Drosglwyddo Nwy Naturiol felly er mwyn cysylltu'r terfynfeydd yn Aberdaugleddau. Ar ben hyn, mae gallu'r System Drosglwyddo Nwy Naturiol bresennol i gludo nwy tua'r dwyrain o Aberdulais yn cael ei gyfyngu gan ddiamedr cymharol fach y pibau a osodwyd ar ddechrau'r 1970au. Mae angen i hydoedd o biblinell newydd o'r un diamedr â'r un y bwriedir ei gosod rhwng Aberdaugleddau ac Aberdulais gael eu gosod ar draws De Cymru ac ymlaen at Swydd Henffordd a Swydd Gaerloyw.

[4] http://www.nationalgrid.com/uk/Gas/Pipelines/milfordhaven

Y peth pwysig, unwaith y bydd y gwahanol biblinellau wedi cael eu gosod, ar wahan i nifer fach o Orsafoedd Peirianwaith Ar y Ddaear, yw y bydd y pibau i gyd o dan y ddaear, gan ddychwelyd cefn gwlad i'w harddwch naturiol."

Pwyntiau i'w hystyried cyn y gweithdy

Dylech chi feddwl am y cwestiynau hyn cyn cyrraedd. Fe fydd eich atebion yn eich helpu i gymryd rhan fwy effeithiol yn y trafodaethau fydd yn dilyn pob gweithgarwch yn ystod y sesiynau gweithdy.

Â pha broblemau ynghylch cynaladwyedd y mae'ch busnes chi'n mynd i'r afael yn barod?

A oes problemau o hyd ynghylch cynaladwyedd y mae'n rhaid ichi fynd i'r afael â nhw?

Beth yw'r her fwyaf sy'n eich rhwystro rhag gwneud eich busnes yn fwy cynaliadwy?

Beth sy'n peri iddi fod yn gymaint o her?

Pa ddatblygiadau allanol fyddai'n ei gwneud hi'n haws i'ch busnes chi droi'n fwy cynaliadwy? E.e. addysg, deddfau, grantiau.

Ynghylch y prosiect

Mae'r fenter sy'n cael ei rhoi ar waith gan dîm o academyddion yn Ysgol yr Amgylchedd a'r Gymdeithas ym Mhrifysgol Abertawe yn dod a byddion i busnesau bach a chanolig eu maint (SMEs).

Mae Arferion Proffesiynol dros Ddatblygiad Cynaliadwy – neu PP4SD yn y talfyriad Saesneg – yn brosiect cenedlaethol sydd wedi dylunio a chyhoeddi defnyddiau hyfforddi, ac sy'n cynnal cyrsiau hyfforddiant ar gyfer proffesiynolion mewn datblygiad cynaliadwy.

Fe fydd prosiect Abertawe'n targedu pedwar sector busnes yn ystod prosiect un flwyddyn: Dyframaeth, Rheolaeth Amgylcheddol, Rheoli Pysgodfeydd, a Gweithgynhyrchu Amaethyddol.

Fel rhan o ymrwymiad sector Addysg Uwch i weithio gyda diwydiant a'r gymuned ehangach, nod prosiect PP4SD yn Abertawe yw cynorthwyo busnesau bach a chanolig eu maint (SMEs) yng Nghymru i fagu hyder trwy ymgorffori egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn eu harferion gweithio.

Fe fydd prosiect PP4SD yn Abertawe'n darparu gweithdai un-dydd di-dâl a gwasanaeth ymgynghori ynghylch datblygiad cynaliadwy ar gyfer sefydliadau SME ledled Cymru.

Dywedodd Cyfarwyddwraig y Prosiect, y Dr Jane Claricoates:

"Mae PP4SD yn gallu helpu SMEs i symud tuag at gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gynyddol dynn ynghylch cyflogaeth, iechyd a diogelwch, a'r amgylchedd, yn ogystal â'r galw cynyddol gan gwsmeriaid a defnyddwyr am arferion a chynhyrchion sy'n dda i'r amgylchedd. Fe all dynesiad cynaliadwy at gynllunio ac adrodd ym myd busnes helpu busnesau bach i ddod yn fwy effeithiol a chost-effeithiol a cystadleuol. Mae prosiect PP4SD yn brawf arall o ymrwymiad Prifysgol Abertawe i ddatblygiad cynaliadwy, fel un o nifer o fentrau sy'n digwydd ar y campws."

Ariennir prosiect PP4SD gan Gronfa Fanteisio ar Wybodaeth (KEF) yr Undeb Ewropeaidd, gyda grant o £300,000 trwy Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ogystal, fe fydd y prosiect hwn yn Abertawe'n cydweithio'n glòs â LANTRA, Cyngor Sgiliau'r Sector i gynghori'r llywodraeth ynghylch hyfforddiant ar gyfer diwydiannau sy'n ymwneud â'r tir.

I gael mwy o fanylion am PP4SD, ymwelwch ag http://www.pp4sd.org.uk/